# DEDDF IECHYD ANIFEILIAID 1981

## GORCHYMYN TWBERCWLOSIS (CYMRU) 2010 (O.S.2010/1379) (FEL Y'I DIWYGIWYD)

## TRWYDDED GYFFREDINOL I SYMUD GWARTHEG NAD YDYNT WEDI CAEL PRAWF TWBERCWLOSIS CYN SYMUD AC AR ÔL SYMUD I AC O DIR COMIN

Yn unol ag erthyglau 13, 13A a 23 o Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), mae Gweinidogion Cymru, drwy'r drwydded gyffredinol hon, yn awdurdodi symud gwartheg nad ydyn nhw wedi cael prawf croen cyn symud neu brawf croen ar ôl symud gyda chanlyniadau negyddol i ac o dir comin yng Nghymru, cyn belled ag y cedwir at amodau'r drwydded hon.

Daw'r drwydded hon i rym am 00.01 o'r gloch ar Ebrill 27ain 2024

Llofnodwyd gan ..............................
O dan awdurdod y Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Ysgrifenyddion Cabinet Cymru

Dyddiad: Ebrill 26ain 2024

**Amodau:**

1) Ceidwad yr anifeiliaid ar y tir comin yw'r unig borwr gwartheg ac mae'r tir comin o dan yr un rhif daliad â'r eiddo y caiff yr anifeiliaid eu symud ohono neu iddo.

2) Ni chaniateir symud gwartheg i'r eiddo nac oddi yno os bydd symudiad o'r fath yn groes i gyfyngiadau sydd mewn grym oherwydd clefyd hysbysadwy arall adeg y symud arfaethedig.

3) Mae mynd yn groes i amodau'r drwydded hon yn drosedd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Nodiadau

i) Y "Gorchymyn" yw Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (O.S.2010/1379) (fel y'i diwygiwyd).

ii) Mae gwartheg yn y cyd-destun hwn yn golygu gwartheg domestig o'r genws Bos, byfflos a beison.

iii) Unig borwr gwartheg yw'r unig geidwad sydd â hawliau i bori gwartheg ar y tir comin sy'n cadw gwartheg ar y tir comin hwnnw.

iv) O dan Erthygl 13 o'r Gorchymyn:

(1) Ni chaiff unrhyw un symud gwartheg o unrhyw eiddo oni bai:
(a) bod prawf croen wedi'i gynnal arnynt ddim mwy na 60 niwrnod cyn dyddiad eu symud; a
(b) bod archwilydd neu filfeddyg cymeradwy wedi darllen canlyniadau'r prawf a bod y canlyniadau'n negyddol.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i-
(a) lloi o dan chwe wythnos oed ar ddiwrnod eu symud;
(b) gwartheg sy'n cael eu symud i gael triniaeth filfeddygol – cyn belled â'u bod yn dod yn ôl yn syth i'r safle y daethant ohono ar ôl y driniaeth, neu eu bod yn cael eu lladd neu eu hanfon yn syth i'r lladd-dy;
(c) unrhyw symudiadau a nodwyd yn Atodlen 2; ac
**(ch) unrhyw symudiad a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.**

v) O dan Erthygl 13A y Gorchymyn.—

(1) Mae tair ardal dwbercwlosis yng Nghymru, sef-
(a) yr Ardal TB Isel;
(b) yr Ardal TB Ganolradd;
(c) yr Ardal TB Uchel.

(2) Pan symudir gwartheg i'r Ardal TB Isel o fuches yn—
(a) yr Ardal TB Ganolradd;
(b) yr Ardal TB Uchel;
(c) yr Ardal Ymylol neu'r Ardal Risg Uchel yn Lloegr; neu
(d) Gogledd Iwerddon,

rhaid i'r ceidwad sy'n derbyn yr anifail drefnu bod milfeddyg cymeradwy yn cynnal prawf ar ôl symud arno dim llai na 60

niwrnod ond dim mwy na 120 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyrhaeddodd y daliad sy'n ei dderbyn.

(2A) Pan symudir anifail buchol i'r Ardal TB Ganolradd o fuches yn—

(a) yr Ardal TB Uchel,
(b) yr Ardal Risg Uchel yn Lloegr, neu
(c) Gogledd Iwerddon,

rhaid i'r ceidwad sy'n derbyn yr anifail drefnu bod milfeddyg cymeradwy yn cynnal prawf ar ôl symud arno dim llai na 60 niwrnod ond dim mwy na 120 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyrhaeddodd y daliad sy'n ei dderbyn.

(3) Nid yw paragraff (2) yn berthnasol i—
(a) gwartheg sy'n cael eu lladd o fewn 120 niwrnod ar ôl cyrraedd y daliad sy'n eu derbyn;
(b) gwartheg sy'n cael eu symud i gael triniaeth filfeddygol – cyn belled â'u bod yn dod yn ôl yn syth i'r safle y daethant ohono ar ôl y driniaeth, neu eu bod yn cael eu lladd neu eu hanfon yn syth i'r lladd-dy;
(c) unrhyw symudiadau a nodwyd yn Atodlen 3; ac
**(ch) unrhyw symudiad a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru**.

(4) pan fydd angen cynnal prawf croen ar ôl symud ar wartheg o dan baragraff (2), ni chaiff unrhyw un symud yr anifail hwnnw o'r eiddo y cafodd ei symud iddo tan y bydd y prawf croen wedi'i gwblhau gyda chanlyniad negyddol oni bai ei fod yn cael ei symud-
(a) yn syth (neu drwy fan casglu) i'w ladd;
(b) i uned besgi gymeradwy; neu
(c) o dan awdurdod trwydded symud a roddwyd gan arolygydd.

iii) Mae'r "Ardal TB Isel" yn golygu'r holl dir sydd wedi'i liwio a'i enwi fel yr Ardal TB Isel ar y map a adneuwyd o Ardaloedd TB Rhanbarthol Cymru.

iv) Mae "Ardal TB Ganolradd" yn golygu'r holl dir sydd wedi'i liwio a'i enwi fel ardal TB Ganolradd ar y map a adneuwyd o Ardaloedd TB Rhanbarthol Cymru.

v) Gellir dod o hyd i fap o ardaloedd risg Prydain Fawr yn: Map Achosion TB Buchol - Ardaloedd Risg, Prydain Fawr | Hwb TB

vi) Manylion cyswllt yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion:
**Cyfeiriad:** Gwasanaethau Maes Cymru, Tŷ Merlin, Heol Glasdwr, Parc

Pensarn, Caerfyrddin SA31 2NF
**Ffôn:** 0300 303 8268.